SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cylchlythyr Newsletter

A

**Cylchlythyr #49 SCHTh Gogledd Cymru – 26 Gorffennaf 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #49 – 26 July 2024**

## Annog trigolion Gogledd Cymru i ddweud eu dweud am blismona

Mae plismona yng Ngogledd Cymru yn rhywbeth sy'n bwysig i ni gyd. Dyna pam, rhwng rŵan a 27 Medi, mae Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Gogledd Cymru, yn gofyn wrth bobl leol ddweud eu dweud ynglŷn â'r hyn maen nhw'n feddwl ddylai blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru fod dros y pedair blynedd nesaf, a sut hoffai'r trigolion weld eu cymunedau yn cael eu plismona.

Mi gafodd Andy Dunbobbin ei ail-ethol ym mis Mai 2024, ac, fel rhan o'i rôl, mae ganddo ddyletswydd i greu cynllun sy'n gosod y blaenoriaethau er mwyn i Heddlu Gogledd Cymru weithio tuag atyn nhw, er mwyn ymdrin â throsedd ledled y rhanbarth. Mae nodweddion allweddol eraill o fod yn CHTh yn cynnwys penderfynu ar y gyllideb ar gyfer yr Heddlu, a dal y Prif Gwnstabl yn atebol ynglŷn â chyflawniad yr Heddlu.

Er mwyn ei alluogi i ysgrifennu ei Gynllun Heddlu a Throsedd, mae'r CHTh eisiau sicrhau ei fod yn gwrando ar bobl leol am sut mae nhw eisiau gweld Gogledd Cymru yn cael ei blismona, ac ymdrin hefo unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw. Mae'n gwneud hyn drwy arolwg, er mwyn casglu eu barn a'u hymatebion. Mi fydd yr adborth yn cael ei gynnwys yn y cynllun, ac mi wnaiff helpu ffurfio gwasanaethau'r dyfodol a dosbarthiad adnoddau'r Heddlu dros y pedair blwyddyn nesaf o'i gyfnod yn y swydd. **Cliciwch yma i gyflwyno eich ymateb.**



## People of North Wales urged to have their say on policing

Policing in North Wales is something that matters to us all. That's why from now until 27 September, North Wales Police and Crime Commissioner (PCC) Andy Dunbobbin is asking local people to say what they think the priorities of North Wales Police should be for the next four years and how they want to see their neighbourhoods policed.

Andy Dunbobbin was re-elected in May 2024 and, as part his role, he has a duty to create a plan that sets priorities for North Wales Police to work to, to fight crime across the region. Other key aspects of being PCC include deciding the budget for the Police and holding the Chief Constable to account for the performance of the Force.

To be able to write his Police and Crime Plan, he wants to ensure he is listening to local people about how they want to see North Wales policed and that he is addressing any concerns they have. He is doing this through a survey to get their thoughts and responses. The feedback will be incorporated into the plan and will help shape future services and the allocation of resources by Police over the coming four years of his term of office. **Click here to submit your response.**

---

## Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru i barhau yn y rhanbarth diolch i waith HGC a'r CHTh

Bydd Rhaglen Ysgolion Cymru, a elwir hefyd yn SchoolBeat Cymru, yn parhau yng Ngogledd Cymru diolch i ymdrechion a chyllid cyfunol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sef Amanda Blakeman a Andy Dunbobbin.

Mae Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a heddluoedd Gogledd Cymru, Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru. Mae'n cynnwys rôl Swyddog Heddlu Ysgolion, pwynt cyswllt penodol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. Mae Swyddogion Heddlu Ysgolion yn cyflwyno cwricwlwm dwyieithog a adolygir yn genedlaethol o wersi a ddatblygwyd gan athrawon ar gyfer plant 5-16 oed. Maen nhw'n ymgysylltu hefo pob ysgol, gan gynnwys addysg prif ffrwd, ysgolion annibynnol yng Nghymru, ysgolion sy'n helpu anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth amgen gan gynnwys unedau atgyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol.

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddwyd na fyddai Llywodraeth Cymru bellach yn gallu ariannu'r rhaglen o ddiwedd mis Mawrth. Ers hynny, a hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd, mae'r rhaglen wedi cael ei hariannu dros dro gan yr Heddlu a'r CHTh tra bod opsiynau eraill ar gyfer parhad SchoolBeat yn cael eu harchwilio. **Darllenwch fwy yma.**



## Wales Police Schools Programme to continue in the region thanks to work of NWP and the PCC

The Wales Schools Programme, also known as SchoolBeat Cymru, is set to continue in North Wales thanks to the combined efforts and funding of North Wales Police Chief Constable Amanda Blakeman and Andy Dunbobbin.

The Wales Police Schools Programme is a collaboration of Welsh Government and the North Wales, Dyfed-Powys, Gwent, and South Wales forces and includes the role of Schools Police Officer, a dedicated point of contact for every school in Wales. SPOs deliver a nationally reviewed bilingual curriculum of teacher-developed lessons for ages 5-16. They engage with all schools, including mainstream education, independent schools in Wales, schools supporting additional learning needs and alternative provision including pupil referral units and education other than at school.

In February of this year, it was announced that Welsh Government would no longer be able to fund the programme from the end of March. Since then, and up the end of the academic year, the programme has been funded temporarily by the Force and PCC while other options for the continuation of SchoolBeat were explored. **Read more here.**

---

## Timau a chlybiau chwaraeon ledled Gogledd Cymru ar eu marciau ar gyfer yr haf, efo buddsoddiad gan y CHTh

Mae Andy Dunbobbin wedi datgelu'r rhestr terfynol o ymgeiswyr llwyddiannus o'i Gronfa Chwaraeon yr Haf, sy'n cynnwys 26 sefydliad o bob un o chwe sir Gogledd Cymru.

Mi gafodd y gronfa ei lansio yn wreiddiol yn gynnar ym mis Mehefin, efo'r nod o annog clybiau a sefydliadau ieuenctid ymgeisio am rodd er mwyn talu am weithgareddau chwaraeon drwy gydol y gwyliau haf. Mae'r Comisiynydd wedi dyrannu £25,000 ar gyfer cynorthwyo'r prosiectau, efo'r canolbwynt o alluogi a datblygu plant a phobl ifanc, a  threchu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynyddu dros fisoedd yr haf, a nod y prosiect ydy diddori plant a phobl ifanc mewn ffordd gadarnhaol, drwy hyrwyddo gwaith tîm, ymarfer corff ac amgylchfyd hwyliog a chynhwysol ar gyfer pawb.

Mae'r rhestr lawn o glybiau sydd wedi derbyn rhodd gan Gronfa Chwaraeon yr Haf, enw'r prosiect a lle maen nhw'n cymryd lle **i'w gweld ar y ddolen yma.**



## Sports clubs and teams across North Wales get set for summer with funding from PCC

Andy Dunbobbin has revealed the final list of successful applicants from his Summer Sports Fund, which comprises 26 organisations from right across the six counties of North Wales.

The fund was originally launched in early June with the aim of encouraging clubs and youth organisations to apply for a grant to pay for sporting activities throughout the summer break. The Commissioner allocated £25,000 to support the projects with the focus being on empowering and developing children and young people and combating anti-social behaviour.

ASB can often spike over the summer months and the aim of the project is that by keeping children and young people occupied in a positive way, we can promote teamwork, exercise, and a fun and inclusive atmosphere for everyone.

The full list of clubs awarded a grant from the Summer Soccer Fund, the name of the project and where it will take place **can be found at the link here.**

---

## Heddlu yn rhybuddio trigolion Gogledd Cymru ar ôl cynnydd troseddau twyll crypto

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn rhybuddio trigolion y rhanbarth i fod yn wyliadwrus, ar ôl gweld cynnydd troseddau'n ymwneud ag arian crypto a sgamiau yn yr ardal dros y misoedd diwethaf, efo aelodau'r cyhoedd yn dioddef ac yn colli arian i dwyllwyr.

Mae arian crypto wedi dod yn fwy adnabyddus dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft, dan yr enw Bitcoin. Mae'n fath o arian digidol sy'n gweithredu ar-lein, ond nid oes ganddo gefnogaeth banc na benthyciwr, fel Banc Lloegr. Mae pobl yn cyfnewid eu harian efo deliwr arian crypto am docynnau rhithwir maent yn gallu eu gwario ar gynnyrch a gwasanaethau.

Tra bod rhai buddsoddiadau arian crypto yn rhai gwirioneddol, 'dydy rhai ddim, ac mae'r Cwnstabl Jason Knowles o Dîm Troseddau Seibr Heddlu Gogledd Cymru yn credu ei fod wedi gweld tua £6 miliwn o golled ymysg yr achosion mae o wedi eu harchwilio ers ymuno efo'r tîm. **Darllenwch fwy yma.**




## Police issue warning to North Wales residents after rise in crypto fraud

---

North Wales Police and the Office of the Police and Crime Commissioner for North Wales are warning residents of the region to be on their guard after seeing a rise in cryptocurrency-related fraud and scams in the area over recent months with members of the public falling victim and losing money to fraudsters.

Cryptocurrency has become increasingly well-known in recent years, for example under the name Bitcoin. It's a form of digital currency that functions online and doesn't have the support of a central bank or lender of last resort, such as the Bank of England. People exchange their money with cryptocurrency dealers for virtual tokens that they can spend on goods and services.

While some cryptocurrency investment vehicles are legitimate, some are not and PC Jason Knowles of North Wales Police's Cyber Crime team believes he has seen approximately £6 million of loss among cases he's investigated in the three years since joining the team. **Read more here.**

---

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.


Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW


Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy